Rhif: **WG24075**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dynodi Awdurdod trwyddedu o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bwriad y rheoliadau hyfforddi a fydd yn rheoli gofynion hyfforddi landlordiaid ac asiantau

Dyddiad cyhoeddi: **Mehefin 2015**

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3775 3 © Hawlfraint y Goron 2015

Ymatebion Ymgynghori ar Ddynodi Awdurdod Trwyddedu o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bwriad y rheoliadau hyfforddi a fydd yn rheoli gofynion hyfforddi landlordiaid ac asiantau

Cyflwyniad

Pasiwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â rheoleiddio tai rhent preifat.
Cynhaliwyd ymgynghoriad i geisio barn ar y bwriad i benodi un awdurdod trwyddedu i Gymru a dynodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod hwnnw. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar y cynnig y dylai'r awdurdod trwyddedu nodi'r maes llafur craidd ar gyfer cyrsiau i landlordiaid ac asiantau ac y dylai'r awdurdod trwyddedu awdurdodi darparwyr i ddarparu cyrsiau hyfforddi o'r fath.

Y Broses Ymgynghori

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus am 7 wythnos ar 19 Rhagfyr 2014 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 6 Chwefror 2015. Roedd cyfanswm o 10 cwestiwn wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori, dau'n ymwneud â dynodi un awdurdod trwyddedu ac 8 yn ymwneud â bwriad polisi'r rheoliadau hyfforddi.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe gysylltwyd yn uniongyrchol â rhanddeiliaid i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Fe gawsom 47 o ymatebion y gellir eu rhannu fel a ganlyn:

- 8 Asiant Gosod a Rheoli
- 10 Awdurdod Lleol
- 10 Corff Proffesiynol
- 7 Sefydliad yn y Trydydd Sector
- 3 Cymdeithas Fasnach
- 2 Gorff Cyhoeddus
- 7 Unigolyn Preifat / Dienw

Roedd 11 o'r ymatebion o'r tu allan i Gymru, er bod gan yr ymatebwyr hyn i gyd fuddiant yng Nghymru naill ai fel corff proffesiynol cenedlaethol, cymdeithas fasnach neu asiantaeth gosod a rheoli.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad 1. Gall yr ymatebion ymgynghori gael eu darllen yn llawn yn y ddogfen Ymatebion Ymgynghori.
Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif themâu o'r ymatebion ymgynghori ac yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru.

Cefndir Deddfwriaethol

Dynodi Awdurdod Trwyddedu

O dan Adran 3, Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- dynodi un unigolyn fel yr awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan;

- neu ddynodi unigolion gwahanol fel awdurdodau trwyddedu ar gyfer rhannau gwahanol o Gymru

Mae'n rhaid i'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu dynodedig weinyddu cofrestriadau a gyflwynir gan landlordiaid, a phrosesu ceisiadau am drwyddedau gan landlordiaid ac asiantau sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu sefydlu a chynnal y gofrestr gyhoeddus. Hefyd rhoddir pwerau gorfodi iddynt i sicrhau bod y bobl berthnasol yng Nghymru'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf.

Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu

O dan Adran 19, Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, cyn i awdurdod trwyddedu roi trwydded, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod y gofynion hyfforddi a nodir mewn neu o dan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wedi'u bodloni neu y cânt eu bodloni.

Gall Gweinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, awdurdodi awdurdod/awdurdodau trwyddedu i nodi gofynion o ran hyfforddiant mewn perthynas â'r canlynol:

- Rhwymedigaethau statudol landlord a thenant;
- Y gydberthynas gytundebol rhwng landlord a thenant;
- Rôl asiant sy'n gwneud gwaith gosod neu waith rheoli eiddo;
- Arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig neu sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig ar gyfer eu gosod o dan denantiaeth ddomestig.

Gall Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth i'r awdurdod trwyddedu wneud y canlynol:

- Awdurdodi unigolion i gynnal cyrsiau hyfforddi;
- Cymeradwyo cyrsiau hyfforddi.

Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i'r Awdurdod/Awdurdodau Trwyddedu godi ffi am gais am awdurdodiad ar gyfer darparwr hyfforddiant neu am gymeradwyaeth i gwrs hyfforddi.

Ymatebion i'r cwestiynau unigol yn yr ymgynghoriad

Dynodi Un Awdurdod Trwyddedu

Bwriad y Gorchymyn Dynodi yw penodi un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan i reoli'r cynllun cofrestru a thrwyddedu i landlordiaid ac asiantau gosod. Ystyrir y bydd penodi un awdurdod trwyddedu yn fuddiol am y rhesymau canlynol:

- Cost-effeithiolrwydd gweithredu un gronfa ddata, un gofrestr ac un wefan (yn hytrach na gweithredu un ym mhob ardal awdurdod lleol)
- Dim ond unwaith y bydd yn ofynnol i landlordiaid ac asiantau gofrestru a dim ond un ffi y byddant yn ei thalu (yn hytrach na sawl gwaith os bydd ganddynt eiddo mewn mwy nag un ardal awdurdod)
- Cysondeb o ran y gwasanaeth a ddarperir a'r modd y mae'r ddeddfwriaeth a nodir yn y Ddeddf yn cael ei dehongli a'i rhoi ar waith
- Un gronfa ddata ganolog ar gyfer casglu data (yn hytrach na bod landlord yn gorfod cael nifer o gofrestriadau er mwyn adlewyrchu eiddo mewn ardaloedd gwahanol).
- Manteision hyrwyddo un cynllun cofrestru a thrwyddedu "cenedlaethol" o ran costau a marchnata.

Cwestiwn 1:
A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru benodi un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd	43	(92%)	Ydw
Atebodd	1	(2%)	Nac ydw
Roedd	3	(6%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd cytundeb y byddai penodi un awdurdod trwyddedu'n fwy cost-effeithiol ac effeithlon na phenodi nifer o Awdurdodau Trwyddedu. Mae sylwadau ychwanegol a wnaed o dan y cwestiwn hwn yn pwysleisio hyn a'r ffaith y byddai'n llai beichus i landlordiaid ac asiantau pe bai'n ofynnol iddynt ymgeisio i un Awdurdod Trwyddedu yn unig. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Rydym yn ystyried y byddai hyn yn hybu cysondeb ac y byddai hefyd yn hybu arbedion maint
- Rydym yn teimlo mai dyma'r dull gorau i geisio cadw'r cynllun mor anghymhleth a syml â phosibl. Bydd hefyd yn osgoi dyblygu adnoddau os yw un tîm canolog sy'n meddu ar arbenigedd yn gallu rhedeg y cynllun yn effeithiol ac yn effeithlon yn hytrach na bod llawer o dimau gwahanol ledled Cymru'n gwneud yr un peth.
- Pe bai'r cynllun yn cael ei redeg gan bob awdurdod lleol, byddai hynny'n arwain at gryn dipyn yn fwy o waith gweinyddol ac aneffeithlonrwydd yn y broses.
- Mae llawer o'n haelodau yng Nghymru'n gosod eiddo naill ai fel rhan o'u busnes craidd neu'n atodol i hynny. Rydym felly'n cefnogi'r egwyddor o fod ag un awdurdod trwyddedu ar gyfer Cymru, gyda landlordiaid yn gorfod cofrestru unwaith yn unig.
- Bydd trefn lle mae un awdurdod canolog yn ei gwneud yn haws i Landlordiaid wybod pwy y mae angen iddynt gysylltu â hwy er y bydd ganddynt eiddo mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol o bosibl.
- Pe bai mwy nag un awdurdod yn bodoli byddai'n ofynnol inni gofrestru gyda sawl awdurdod, a fyddai'n gosod baich gweinyddol ychwanegol arnom ni fel sefydliad.
- Rydym ni o'r farn y bydd un awdurdod trwyddedu'n helpu i sicrhau bod cwsmeriaid – yn denantiaid a landlordiaid fel ei gilydd – yn gallu cael mynediad yn rhwydd at wybodaeth o un ffynhonnell sy'n hybu dealltwriaeth am y newidiadau mewn arferion o ran rhentu preifat yng Nghymru.

Er bod cytundeb y dylai fod un Awdurdod Trwyddedu defnyddiodd rhai ymatebwyr yr adran sylwadau i bwysleisio'u gwrthwynebiad i'r cynllun newydd neu eu hamheuon yn ei gylch:

- Rydym yn ystyried bod y Ddeddf yn feichus ac yn ystyried gwerthu ein holl eiddo yng Nghymru. Yn y cyfamser byddem yn erfyn arnoch i benodi un awdurdod trwyddedu gan y byddai'n gostus ac yn fiwrocrataidd gorfod ymdrin â sawl un ... bydd y costau'n cael eu trosglwyddo i denantiaid ar ffurf rhenti uwch yn y tymor hir.
- Rwy'n amau a fydd y Ddeddf Tai yn cyflawni ei dyheadau teg ond, gan ei bod bellach yn gyfraith, dylem fynd ati yn awr i geisio ei gweithredu mor synhwyrol â phosibl. Rwyf felly'n croesawu natur gyffredinol y cynnig hwn: dylai fod un awdurdod trwyddedu ar gyfer Cymru gyfan …

- Nid wyf yn cytuno y bydd trwyddedu ar ei ben ei hun yn datrys yr holl broblemau y mae'r Ddeddf wedi'i bwriadu i'w datrys. Fodd bynnag, er mwyn i gynllun drwyddedu fod yn effeithiol, rwy'n cytuno y byddai un awdurdod trwyddedu i Gymru (yn hytrach na sawl awdurdod) yn llai beichus yn weinyddol.
- Cododd nifer o ymatebwyr y mater ynghylch rôl orfodi Awdurdodau Lleol:
- … rydym yn nodi bod Awdurdodau Lleol unigol yn gyfrifol am gyflawni'r rôl orfodi, y disgwylir mwy o wybodaeth a chanllawiau yn ei chylch. Bydd cyfleu gwybodaeth i Awdurdodau Lleol ac argaeledd yr wybodaeth honno'n hollbwysig er mwyn i'r cynllun trwyddedu weithredu'n effeithiol. Bydd angen i'r awdurdod trwyddedu roi blaenoriaeth uchel i weithio gyda'r holl Awdurdodau Lleol.
- … byddem yn croesawu eglurder o ran sut y byddir yn ymdrin â materion y bydd tenantiaid a phobl sy'n gweithio ar eu rhan yn eu codi gyda'r awdurdod lleol lle mae hynny'n ymwneud â gorfodi neu gamau y dylai'r awdurdod lleol eu cymryd.
- Mae gennym bryderon bod y pwerau ymchwiliol yn y Ddeddf Tai (Cymru) yn cael eu hymddiried i'r Awdurdod Trwyddedu heb i'r un pwerau'n union fod ar gael i Awdurdodau Tai. Mae gennym bryderon hefyd na fydd y pwerau'n ddigonol o bosibl. Mae risg, oni bai fod yr Awdurdodau Tai yn gallu bod â'r un pwerau ar gyfer eiddo yn eu hardal â'r Awdurdodau Trwyddedu, y bydd amcanion y Ddeddf yn cael eu llesteirio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion yn dynodi bod y bwriad i ddynodi un awdurdod trwyddedu'n cael ei groesawu.

Un maes a oedd yn achosi pryder oedd rôl orfodi awdurdodau lleol. Er nad oedd hyn yn cael sylw yn yr ymgynghoriad, rydym yn cydnabod bod pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch y mater hwn.

O dan Adran 28(3) o'r Ddeddf Tai (Cymru) gall yr awdurdod trwyddedu roi cydsyniad cyffredinol neu benodol i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi penodol yn erbyn landlordiaid/asiantau mewn perthynas â thai yn eu hardal. Bydd yr awdurdod trwyddedu (unwaith y bydd wedi'i ddynodi) yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Panel Arbenigol ar Dai i sefydlu'r cylch gorchwyl ar gyfer pwerau gorfodi ar lefel leol. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad a byddwn yn eu cyfleu i'r awdurdod trwyddedu a'r Panel Arbenigol ar Dai i sicrhau eu bod yn cael sylw.

<u>Dynodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu</u>

Y bwriad yw mai Cyngor Caerdydd fydd yr awdurdod trwyddedu sengl. Wrth ddatblygu'r Bil Tai (Cymru), cadarnhaodd Cyngor Caerdydd ei gynnig i reoli'r cynllun cofrestru a thrwyddedu i landlordiaid ac asiantau gosod. Gan fod gan Gyngor Caerdydd brofiad o weinyddu'r Cynllun Achredu Landlordiaid gwirfoddol presennol ar ran y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ystyrir bod ganddo'r wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i roi'r gyfundrefn gyfreithiol newydd ar waith.

Cwestiwn 2:
A ydych yn cytuno y dylid penodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu sengl?

O'r 47 ymateb a gafwyd:
Atebodd 37 (79%) Ydw
Atebodd 7 (15%) Nac ydw
Roedd 3 (6%) heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd cytundeb ar y cyfan y dylai Cyngor Caerdydd gael ei benodi fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer Cymru gan ei fod yn meddu ar y profiad a'r arbenigedd perthnasol o ganlyniad i redeg y cynllun achredu gwirfoddol presennol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Ymddengys mai penodi Cyngor Caerdydd yn awdurdod trwyddedu sengl yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol a phragmatig ymlaen a byddai hynny'n sicrhau bod y sgiliau, yr arbenigedd a'r wybodaeth a gasglwyd trwy redeg Cynllun Landlord Achrededig Cymru Gyfan yn trosglwyddo i'r cynllun newydd.
- Cefnogir gwerth cynllun trwyddedu landlordiaid a'r angen i'w sefydlu'n gyflym. Am y rheswm hwn, er mwyn i'r cynllun trwyddedu gael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, derbynnir ei bod yn briodol bod Cyngor Caerdydd yn cyflawni'r swyddogaeth drwyddedu i ddechrau.
- Ymddengys fod gan Gyngor Caerdydd y profiad i gyflawni'r swyddogaeth.
- Rydym yn teimlo ei bod yn rhesymol awgrymu mai Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Trwyddedu Sengl o ystyried ein bod yn gwybod ei fod eisoes yn meddu ar wybodaeth am redeg cynllun trwyddedu a'i fod yn gyfarwydd â rhedeg cynllun o'r fath.

Serch hynny, mynegodd nifer o ymatebwyr beth pryder ynghylch penodi Cyngor Caerdydd fel yr awdurdod trwyddedu:

- Nid oes angen i'r swyddogaeth newydd hon fod wedi'i lleoli yng Nghaerdydd a dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynd ati mewn ffordd weithredol i geisio lleoli'r swyddi a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd hon mewn ardaloedd â chyfraddau diweithdra uchel neu â llai o gyflogwyr lleol, nid mewn ardaloedd sydd eisoes â rhagolygon da o ran cyflogaeth a thai drud.
- Nid wyf yn gweld unrhyw reswm pam y dylai Cyngor Caerdydd elwa o seiffno cyllid o bob rhan o Gymru. Dylai'r gwaith gael ei wneud gan un o'r awdurdodau unedol llai gan ei helpu i gwrdd â biliau gorbenion. Pam ddylai'r awdurdod mwyaf cyfoethog gael budd o'r ddeddfwriaeth hon?
- Mae'r NLA yn credu y dylid cynnal proses dendro agored, deg a thryloyw ar gyfer y rôl....Byddai'n ffordd anffodus o ddechrau cynllun newydd sydd wedi'i fwriadu i wella tryloywder a hyder yn y sector rhentu preifat, pe bai unrhyw ganfyddiad am ffafriaeth neu ragfarn yn y broses benodi ar ddechrau'r cynllun. Gall proses dendro fod yn gyflym, yn rhwydd ac nid oes angen iddi achosi oedi diangen cyn cyflwyno'r cynllun; fodd bynnag byddai'n ysgogi hyder, yn cynyddu tryloywder ac yn sicrhau bod unrhyw faterion posibl yn cael eu datrys yn gynnar.
- Mae ARLA yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer tendro priodol er mwyn caffael y darparwr gwasanaethau gorau posibl i fod yn Awdurdod Trwyddedu ... Bydd hyn yn galluogi cyrff cyhoeddus a phreifat i dendro am y contract i sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf effeithlon ac effeithiol yn cael ei gaffael i weithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu.
- … mae trwyddedu'r holl landlordiaid yng Nghymru'n gyfle busnes sylweddol. Rydym yn credu felly nad yw unrhyw benderfyniad i wneud Caerdydd yn Awdurdod Trwyddedu i ddechrau yn benderfyniad di-ddadl ac na ddylai barhau heb adolygiad am gyfnod amhendant. Mae dadl gref y dylai'r swyddogaeth drwyddedu gael ei rhoi ar dendr yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod ychydig o gefnogaeth i benodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu dynodedig, rydym yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr a fyddai'n croesawu ymarfer tendro i sicrhau tryloywder yn y broses o benodi'r awdurdod trwyddedu.

Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad hwn, cysylltwyd yn uniongyrchol â Phrif Weithredwyr yr holl awdurdodau lleol i geisio'u barn am y bwriad i ddynodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu sengl. O'r 22 awdurdod lleol y cysylltwyd â hwy cafwyd 16 ymateb ac roedd pob un ohonynt yn fodlon i Gyngor Caerdydd gael ei ddynodi i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu dynodedig. O'r ymatebion a gafwyd, gan awdurdodau lleol a thrwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn teimlo'n hyderus bod cefnogaeth ddigonol i benodi Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu heb broses dendro ffurfiol.

Hefyd, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu dynodi corff preifat (fel yr awgrymodd rhai ymatebwyr); mae'n rhaid iddo fod yn unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn perthynas â Chymru.
Mynegwyd peth pryder hefyd y byddai Caerdydd yn elwa'n ariannol o gael ei benodi i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu sengl, o ran creu swyddi a chreu incwm. Cyfundrefn ddielw fydd hon a dim ond cost gweinyddu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun newydd y bydd modd ei hadennill trwy gost cofrestriad neu drwydded. Mae'n anorfod y bydd y cynllun newydd yn arwain at greu nifer fach o swyddi ychwanegol yng Nghaerdydd ac rydym yn deall y pryderon a godwyd gan rai ymatebwyr. Fodd bynnag, ar y cyfan ni chodwyd hyn fel gwrthwynebiad sylweddol i ddynodi Caerdydd.

Gofynion Hyfforddi

Cyn rhoi trwydded mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon bod y gofynion hyfforddi perthnasol wedi'u bodloni neu y cânt eu bodloni. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod Trwyddedu dynodedig yn penderfynu ar y meysydd llafur craidd penodol ar gyfer cyrsiau hyfforddi ac yn eu cyhoeddi fel y gellir diweddaru cynnwys cyrsiau yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ac arfer gorau. Er hynny, bydd rheoliadau hyfforddi yn nodi bod yn rhaid i gynnwys meysydd llafur y cyrsiau penodol ymwneud ag un o'r canlynol:

1. Rhwymedigaethau statudol landlord a thenant.
2. Y gydberthynas gytundebol rhwng landlord a thenant.
3. Rôl asiant sy'n gwneud gwaith gosod neu waith rheoli eiddo.
4. Arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig neu sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig ar gyfer eu gosod o dan denantiaeth ddomestig.
5. Rolau a chyfrifoldebau o ran gwaith gosod neu waith rheoli eiddo.

Cwestiwn 3:
A ydych yn cytuno y dylai pob un o'r pum maes pwnc cyffredinol a nodwyd uchod gael ei nodi yn y rheoliadau hyfforddi?

O'r 47 ymateb a gafwyd:
Atebodd 39 (82%) Ydw
Atebodd 4 (9%) Nac ydw

Roedd	4 (9%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r 5 maes pwnc gael eu nodi yn y rheoliadau hyfforddi. Roedd sylwadau'n cynnwys:

- Mae'r rhestr yn ddigon cynhwysfawr i gwmpasu'r holl feysydd hynny sy'n bwysig ac y mae'n angenrheidiol bod â digon o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ynddynt.
- Rydym yn cytuno bod y rhain i'w gweld fel pe baent yn cwmpasu'r meysydd pwysig.
- Mae'r pum maes eang a nodir yng nghwestiwn tri'n cynnwys yr elfennau hanfodol o osod a rheoli eiddo rhent preifat.
- Rydym yn cytuno bod y meysydd pwnc hynny'n briodol.
- Mae Cyngor Ar Bopeth Cymru yn cytuno â'r 5 maes pwnc eang a gynigir.

Lle nad oedd ymatebwyr yn cytuno â'r 5 maes pwnc a oedd wedi'u nodi, nid oeddent yn cytuno â'r syniad o hyfforddiant gorfodol yn gyffredinol:

- Dydw i ddim yn meddwl bod angen hyfforddiant o gwbl … Nid yw'r ffaith bod landlord wedi cael hyfforddiant yn berthnasol i'w ymddygiad o ran cydymffurfio neu beidio.
- Rwy'n cytuno y dylai landlord neu asiant cyfrifol gael hyfforddiant yn y 5 maes uchod; fodd bynnag bydd rhai eisoes yn gallu dangos hyn ac ni ddylent gael eu gorfodi i gwblhau cwrs ychwanegol lle gellir profi hyn.
- Rydym ni'n credu y dylai hyfforddiant gael ei gynnig fel gweithgaredd gwirfoddol, ac y dylai fod ar gael i landlordiaid os byddant hwy'n teimlo bod angen iddynt fynychu unrhyw weithdai hyfforddi

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn dilyn cytundeb sylweddol ymatebwyr y dylai'r meysydd pwnc a oedd wedi'u nodi gael eu cynnwys yn y rheoliadau hyfforddi, ein bwriad ni yw y bydd y Rheoliadau'n awdurdodi'r Awdurdod Trwyddedu i nodi gofynion cyrsiau mewn perthynas â'r 5 maes.

Cwestiwn 4:
A oes unrhyw feysydd pwnc cyffredinol eraill y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau hyfforddi fel gofynion statudol mewn cwrs hyfforddi, yn eich barn chi?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd 18	(38%)	Oes
Atebodd 21	(45%)	Nac oes
Roedd 8	(17%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Nid oedd mwyafrif bach o ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnwys unrhyw feysydd eraill fel gofynion statudol mewn cyrsiau hyfforddi:

- Mae'r meysydd a nodir fel y 5 maes eang yn eang ac yn ddelfrydol byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu er mwyn gallu dweud pa un a yw'r rhain yn gwbl ddigonol ai peidio.
- Nid oes unrhyw feysydd pwnc ychwanegol yn ofynnol
- Rydym yn ystyried bod y meysydd pwnc yn ddigon eang i gynnwys yr holl faterion hanfodol
- Mae'r pynciau eang hyn i'w gweld yn ddigon cynhwysfawr

Lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnwys meysydd eraill fel gofynion statudol yn yr hyfforddiant, ar y cyfan fe wnaethant restru meysydd y teimlir y byddent yn perthyn i un o'r 5 maes pwnc eang:

- Arfer gorau ar gyfer terfynu tenantiaeth os yw un person yn gadael tenantiaeth h.y. pan fo perthynas yn chwalu a beth sy'n digwydd os yw rhywun yn yr ysbyty/y carchar am gyfnod hir.
- Mae'n rhaid i hyfforddiant sy'n cyd-fynd ag arfer gorau gael ei ddarparu gan gyfeirio at set gyffredin o safonau i sicrhau cysondeb.
- Gwybodaeth o ran sut i droi tenant allan o eiddo'n gyfreithlon gan gynnwys arfer gorau, i osgoi honiadau am droi allan yn anghyfreithlon.
- Datrys gwrthdaro rhwng tenant a landlord gan y gellir datrys y rhan fwyaf o faterion pan nad yw'r naill ochr na'r llall yn bod yn ymosodol.
- Dylai arfer gorau gyfeirio at denantiaid a landlordiaid; mae angen dwyochredd mewn contract da
- Mae RSPCA Cymru yn credu y dylai gofynion a deunyddiau hyfforddi gynnwys ffocws ar gadw anifeiliaid mewn tai rhent preifat.
- 1. Egwyddorion ac arfer da ym maes cydraddoldeb 2. Y gyfraith ac arfer da o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol 3. Gofal da am gwsmeriaid ac ymgysylltu'n dda â hwy…
- … cynnwys pynciau sy'n cynorthwyo landlordiaid i weithio gyda thenantiaid a allai fod yn agored i niwed, gan felly gyfrannu at nod strategol Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd

Yr unig faes arall a awgrymwyd na fyddai'n perthyn i un o'r 5 maes pwnc oedd:

- Mae ar yr holl denantiaid presennol a darpar denantiaid angen eu hyfforddiant eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddai'r awgrymiadau'n perthyn i un o'r 5 maes a gellid eu cynnwys mewn cyrsiau hyfforddi. Rydym yn cydnabod bod nifer o'r materion a godwyd yn achos pryder arbennig i ymatebwyr ac felly bydd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda'r Awdurdod Trwyddedu a'r gweithgor i'w cynorthwyo pan fyddant yn datblygu'r maes llafur craidd.

Nid oes bwriad i gyflwyno hyfforddiant i denantiaid, er y bydd taflen wybodaeth i denantiaid yn cael ei datblygu a honno'n ymdrin â'u hawliau a chyfrifoldebau.

Hyfforddiant i Landlordiaid ac Asiantau

Bydd cyrsiau hyfforddi cymeradwy yn ymdrin yn bennaf â rolau a chyfrifoldebau landlord neu asiant mewn perthynas â'r tenant a'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Y bwriad polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau gwahanol gael eu darparu ar gyfer pobl wahanol er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol eu rolau. Y bwriad yw mai mater i'r Awdurdod Trwyddedu dynodedig fydd penderfynu ar y meysydd llafur craidd gofynnol ar gyfer pob un o'r cyrsiau gofynnol a'u cyhoeddi a nodi'n glir i bwy y mae'r cwrs yn addas. Gan fod y meysydd llafur hyn yn wahanol ar gyfer landlordiaid ac asiantau y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ddatblygu gofynion craidd gwahanol ar gyfer y cyrsiau er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol rôl landlord ac asiant.

Cwestiwn 5:
A ydych yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu nodi y dylai'r hyfforddiant craidd a gynhwysir mewn cyrsiau i landlordiaid ac asiantau fod yn wahanol?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd	35	(74%)	Ydw
Atebodd	7	(15%)	Nac ydw
Roedd	5	(11%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu nodi y dylai'r hyfforddiant craidd a gynhwysir mewn cyrsiau i landlordiaid ac asiantau fod yn wahanol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae rolau landlordiaid ac asiantau'n wahanol, felly dylai'r hyfforddiant craidd a gynhwysir yn y priod gyrsiau hyfforddi ar eu cyfer fod yn wahanol
- Byddem yn cytuno y dylai hyfforddiant gynnwys rhwymedigaethau landlordiaid ar wahân i'r asiantau gosod ac y dylai'r rhain gael eu darparu ar wahân.
- Rydym yn cytuno y dylai'r cyrsiau i landlordiaid ac asiantau fod yn wahanol
- Mae'n rhaid i'r gofynion hyfforddi i landlordiaid ac asiantau fod yn wahanol

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylai'r hyfforddiant fod yr un fath ar gyfer landlordiaid ac asiantau:

- Mae angen i landlordiaid wybod a deall beth ddylai asiantau fod yn ei wneud. Mae angen i asiantau wybod beth ddylent fod yn ei wneud hefyd. Byddai'n symlach ac yn rhatach bod ag un cwrs nid dau.
- Rwy'n credu bod angen i landlordiaid/asiantau wybod y ffeithiau, os ydynt yn mynd i fod yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth safonol. Felly mae angen dweud yr un peth wrth y ddau ohonynt ac mae angen iddynt gael yr un hyfforddiant.
- Yn seiliedig ar drafodaethau gyda landlordiaid ac asiantau gosod rydym yn ystyried bod y gwahaniaethau rhwng gofynion hyfforddi angenrheidiol a chraidd yn fach a bod angen i'r rhan fwyaf o feysydd fod yn feysydd craidd ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod fel ei gilydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Y bwriad yw y bydd hyfforddiant ar gyfer landlordiaid ac asiantau'n wahanol, er y

cydnabyddir bod angen i landlordiaid ac asiantau fod yn ymwybodol o rolau a chyfrifoldebau unigol ei gilydd ac y dylid cynnwys hyn yn y maes llafur ar gyfer pob cwrs. Rydym yn hyderus y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau bod hyn yn cael sylw ym maes llafur craidd yr hyfforddiant ar gyfer landlordiaid ac asiantau.

Cymeradwyo Darparwyr Hyfforddiant

At hynny, y bwriad yw, er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo neu eu hawdurdodi, y bydd yn rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gyflwyno manylion gofynnol eu cyrsiau hyfforddi i'r awdurdod trwyddedu i'w cymeradwyo. Mae'n rhaid i gais i'r awdurdod trwyddedu am awdurdod i ddarparu cyrsiau hyfforddi gael ei wneud yn unol â chanllawiau'r awdurdod trwyddedu.

Er enghraifft, mae darparwr hyfforddiant yn llunio cwrs undydd i landlordiaid a chwrs undydd i asiantau. Er mwyn cael ei gymeradwyo i ddarparu'r cwrs i landlordiaid byddai'n cysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu ac yn cyflwyno cais am gymeradwyaeth (a thalu un ffi). Er mwyn cael ei gymeradwyo i ddarparu'r cwrs i asiantau byddai'n ofynnol iddo gyflwyno cais ar wahân am gymeradwyaeth (a ffi). Ni fyddai'n briodol cymeradwyo cwrs hyfforddi yn unig neu unigolyn i redeg cwrs yn unig ar wahân i'w gilydd; bydd angen ystyried a chymeradwyo'r ddau ohonynt gyda'i gilydd.

Bydd y gofyniad ffurfiol hwn i gael cymeradwyaeth yn sicrhau y gall landlordiaid ac asiantau sydd am gael eu trwyddedu nodi'n hawdd gyrsiau hyfforddi addas a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu fel rhai sy'n cyrraedd y safon ofynnol.

Cwestiwn 6:
A ydych yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo/awdurdodi cyrsiau hyfforddi a darparwyr hyfforddiant i ddarparu hyfforddiant?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd	38	(81%)	Ydw
Atebodd	4	(8%)	Nac ydw
Roedd	5	(11%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo darparwyr hyfforddiant, ac roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae'n … bwysig sicrhau bod y partïon hynny sy'n bwriadu cynnig yr hyfforddiant yn gallu gwneud hynny, a'u bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud.
- Rydym yn cytuno y dylai fod elfen o reoli ansawdd yn y broses o ddarparu'r cyrsiau i geisio sicrhau bod y maes llafur yn cael ei ddehongli'n gyson.
- Ydw – neu fel arall bydd unrhyw Dwm, Dic neu Harriet yn rhedeg y dywededig gyrsiau.

Lle nad oedd ymatebwyr yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo darparwyr hyfforddiant, fe wnaethant y sylwadau canlynol:

- … mae hwn i'w weld yn ddull biwrocrataidd diangen.

- Dylai'r datrysiad i'r broblem beidio â chreu lefelau lluosog o gymeradwyaeth, gyda phob lefel yn costio arian sylweddol i'r landlordiaid a/neu drethdalwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er ein bod yn cydnabod y broses ychwanegol y bydd yn rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fynd drwyddi er mwyn cael eu hawdurdodi i ddarparu hyfforddiant trwyddedu yng Nghymru rydym yn teimlo'i bod yn bwysig bod hyfforddwyr yn cael eu hawdurdodi (a chyrsiau'n cael eu cymeradwyo) gan yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd hyn yn sicrhau bod safon y cynnwys a'r ddarpariaeth yn gyson ac yn cyrraedd lefel foddhaol. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r dull hwn.

Gwrthod cais gan ddarparwr hyfforddiant

Gellir gwrthod awdurdodi cais os na fydd yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan yr awdurdod lleol, neu os na chyflwynir y cais ar y ffurf briodol. Pan fydd awdurdod trwyddedu yn penderfynu gwrthod cais dylai'r penderfyniad gael ei gyhoeddi'n ysgrifenedig a bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd yn dymuno gwneud hynny.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi rhesymau dros ei benderfyniad ac y dylai fod gan ymgeiswyr yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig os byddant yn dymuno gwneud hynny?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd	41	(87%)	Ydw
Atebodd	1	(2%)	Nac ydw
Roedd	5	(11%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd lefel uchel o gytundeb ymhlith ymatebwyr y dylai'r awdurdod trwyddedu ddarparu rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad ynghylch cymeradwyo darparwr hyfforddiant ac y dylai fod gan yr ymgeiswyr hynny yr hawl i wneud sylwadau ysgrifenedig os ydynt yn dymuno. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dylid caniatáu sylwadau ysgrifenedig gan ddarparwyr cyrsiau o fewn graddfa amser resymol. Mae'n rhaid rhoi rhesymau dros benderfyniad yr awdurdod trwyddedu ynghyd â'r gallu i godi'r mater gerbron y Tribiwnlys Eiddo Preswyl dros Gymru neu Ombwdsmon Cymru mewn achosion o anfodlonrwydd.
- Mae hyn yn beth da er mwyn cyfiawnder, tryloywder a hygrededd
- Dylid, gyda graddfeydd amser llym ar gyfer sylwadau ysgrifenedig ac ymateb yr awdurdod trwyddedu.
- Mae'n rhaid bod gan ymgeiswyr y gallu i graffu ar yr awdurdod er mwyn democratiaeth a'r broses hon yw'r ffordd orau o wneud hyn.

Dim ond un ymatebydd atebodd 'Na ddylai' i'r cwestiwn hwn ac fe wnaeth y sylw canlynol:

- Rwy'n anghytuno'n gryf â chreu gwaith diangen i'r gwasanaeth sifil pan fo cymaint o feysydd eraill lle mae'r awdurdod yn methu â chyflawni ei rwymedigaeth oherwydd cymhareb rhy uchel rhwng llwyth gwaith a staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn hyderus, yn seiliedig ar yr ymatebion ymgynghori, bod y dull a nodir ar gyfer gwrthod cais yn cynrychioli arfer gorau. Mae'n sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn darparu rhesymau dros wrthod a bod gan ymgeiswyr yr hawl i ymateb i benderfyniad o'r fath. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau tryloywder a thegwch.

Tynnu awdurdod Darparwr yn ôl

Y bwriad yw y bydd gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i dynnu awdurdod darparwr hyfforddiant yn ôl am y rhesymau canlynol:

- Os na fydd y darparwr wedi bodloni amod a osodwyd ar ei awdurdod gan yr awdurdod trwyddedu;
- Os nad yw'n ddarparwr priodol mwyach.

Bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu ddarparu, yn ysgrifenedig, y rhesymau dros dynnu'r awdurdod yn ôl a bydd gan y darparwr hyfforddiant yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu yn erbyn penderfyniad o'r fath.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylai fod gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i dynnu awdurdod darparwr i ddarparu cwrs hyfforddi yn ôl o dan yr amgylchiadau hyn?

O'r 47 ymateb a gafwyd:

Atebodd	40	(85%)	Ydw
Atebodd	1	(2%)	Nac ydw
Roedd	6	(13%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Eto roedd cytundeb y dylai fod gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i dynnu awdurdod darparwr i ddarparu cwrs hyfforddi yn ôl o dan yr amgylchiadau a oedd wedi'u nodi:

- Mae angen bod â thryloywder llwyr mewn telerau ac amodau ar gyfer derbyn cofrestriad o ran nodi o dan ba amgylchiadau y gellir tynnu cofrestriad yn ôl.
- Er mwyn gwarchod hygrededd y cynllun trwyddedu. Byddai hefyd yn angenrheidiol nodi proses ailymgeisio gyda graddfeydd amser yn dilyn tynnu awdurdod yn ôl.
- Mae'n rhaid i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio'n briodol. Yr ail amod a ddarperir yw 'os nad yw'n ddarparwr priodol mwyach'. Yn naturiol, bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol. Mae'n bwysig rhoi eglurhad ym mhob achos pam fod hyn yn wir…

Eto dim ond un ymatebydd atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn:

- Nid ydym yn cytuno gyda'r dull cyffredinol sy'n gymhleth a biwrocrataidd heb fod angen yn ein tyb ni ac yn golygu bod angen i'r awdurdod trwyddedu dreulio amser sylweddol a gwario arian sylweddol yn ymdrin â cheisiadau gan ddarparwyr cyrsiau. Dylai gwaith yr awdurdod trwyddedu ganolbwyntio ar asesu'r canlyniadau a gyflawnir gan asiantau a landlordiaid sy'n ceisio statws trwyddedig.

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi rhesymau dros benderfyniad o'r fath ac y dylai'r darparwr hyfforddiant allu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn erbyn penderfyniad o'r fath?

O'r 47 ymateb a gafwyd:
Atebodd 41 (87%) Ydw
Atebodd 1 (2%) Nac ydw
Roedd 5 (11%) heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno eto y dylai'r awdurdod trwyddedu ddarparu rhesymau dros dynnu cymeradwyaeth yn ôl ac y gallai darparwr hyfforddiant wneud sylwadau ysgrifenedig o dan amgylchiadau o'r fath.

- Dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu roi rhesymau yn ysgrifenedig dros dynnu awdurdod yn ôl a hynny ar yr adeg y mae'n ei dynnu yn ôl.
- Dylai fod gweithdrefn apelio eglur sy'n cynnwys darparu trosolwg allanol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn hyderus, yn seiliedig ar yr ymatebion ymgynghori i gwestiynau 8 a 9, bod y dull a nodir ar gyfer tynnu awdurdod yn ôl i'w weld yn rhesymol ac yn cynrychioli arfer gorau. Mae'n sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn darparu rhesymau dros dynnu awdurdod yn ôl a bod gan bobl yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau tryloywder a thegwch.

Ffioedd

Y bwriad yw y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu pennu polisi ffioedd ar gyfer cymeradwyo cyrsiau hyfforddi a darparwyr hyfforddiant. Y bwriad yw, cyn codi unrhyw ffi, y bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu lunio a chyhoeddi polisi ffioedd ac mai dim ond yn unol â'i bolisi ffioedd y bydd yn gallu codi ffioedd o'r fath. Gall yr awdurdod trwyddedu bennu ffioedd gwahanol am achosion gwahanol neu ddisgrifiadau o achosion ond mae'n rhaid dangos y rhain yn glir yn ei bolisi.

Cwestiwn 10: A ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu lunio a chyhoeddi polisi ffioedd cyn y gall godi ffi am gymeradwyo cwrs hyfforddi a darparwr hyfforddiant?

O'r 47 ymateb a gafwyd:
Atebodd 40 (85%) Dylai

Atebodd 2	(4%)	Na ddylai
Roedd 5	(11%)	heb ateb y cwestiwn hwn

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd cyn gallu codi ffi am gymeradwyo cwrs hyfforddi neu awdurdodi darparwr hyfforddiant:

- Bydd yn darparu tryloywder i hyfforddwyr o ran costau tebygol ceisio cymeradwyaeth
- Mae'r NLA yn croesawu'r cynnig i bennu ffioedd gwahanol ar gyfer achosion gwahanol.
- Mae paratoi rhestr agored a thryloyw o ffioedd a thaliadau cyn gofyn am geisiadau'n deg, yn gyfiawn ac yn rhesymol ac yn gyson ag arfer cyffredin.

Roedd peth pryder na ddylai'r awdurdod trwyddedu ymelwa o'r ffioedd a godir:

- … Mae angen i'r holl ffioedd allu cael eu cyfiawnhau'n eglur ac yn agored fel rhai sy'n adlewyrchu'r gost, ac NID y gost ac elw i'r awdurdod trwyddedu
- Dylai'r holl daliadau gael eu defnyddio dim ond at ddibenion gweinyddu'r cynllun ac nid i gyllido adrannau eraill.
- Ar yr amod bod y ffioedd a bennir yn rhesymol ac yn adlewyrchu dim ond y costau hynny a ysgwyddwyd er mwyn cymeradwyo'r darparwr cyrsiau hyfforddiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am dryloywder yn y broses pennu ffioedd ac ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno â'r gofyniad i'r Awdurdod Trwyddedu baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd cyn codi ffi am gymeradwyo cyrsiau hyfforddi neu awdurdodi darparwyr hyfforddiant. Roedd yn bwysig i nifer o ymatebwyr na ddylai'r Awdurdod Trwyddedu ymelwa o'r ffioedd a godir a bydd y polisi ffioedd yn sicrhau tryloywder o ran y costau sy'n cael eu hadennill.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol wedi cael y cyfle i ymgysylltu â'r cynigion ac wedi ei gwneud yn bosibl cynnal trafodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth newydd a'r modd y caiff ei gweithredu.

Dynodi Awdurdod trwyddedu

Y bwriad yw y bydd Gorchymyn Dynodi yn nodi y bydd un awdurdod trwyddedu ar gyfer Cymru gyfan ac mai Cyngor Dinas Caerdydd fydd hwn.

Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu

Bwriad Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu) (Cymru) 2015 yw ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau gwahanol gael eu darparu i landlordiaid ac asiantau er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol eu rolau. Bwriedir rhagnodi meysydd hyfforddiant cyffredinol mewn rheoliadau ond mater i'r awdurdod trwyddedu

fydd penderfynu ar gynnwys penodol cyrsiau o fewn y meysydd hyn a'i gyhoeddi. At hynny, bwriedir rhoi'r pŵer i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo cyrsiau hyfforddi a darparwyr cyrsiau a chodi ffi am y gymeradwyaeth hon.

Rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

Asiantau Gosod a Rheoli		
1	Wingetts	29 Stryt Holt, Wrecsam, LL13 8DH
2	SKB Property Ltd	3 Temple Terrace, Ewyas Harold, Herefordsire, HR2 0EU
3	I.E.S. Davies Property Rentals	Superbike Manor, Parc yr ynn, Llandysul, SA44 4JU
4	Swyddfa Ystâd Parc Pont-y-pŵl	
5	M A Bird	2 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2PS
6	1 Stop Lettings	22 Ffordd y Môr. Aberystwyth, SY23 1NP
7	Touchstone Corporate Property Services	2 Crescent office Park, Clarks Way, Bath, BA2 2AF
8	1 Stop Lettings	22 Ffordd y Môr. Aberystwyth, SY23 1NP
9	1 Stop Lettings	22 Ffordd y Môr. Aberystwyth, SY23 1NP
10	Touchstone Corporate Property Services,	2 Crescent office Park, Clarks Way, Bath, BA2 2AF
11	Offa Ltd	72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JD
Awdurdodau Lleol		
12	Cyngor Gwynedd	Gwasanaethau Tai, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd Ardal Meirionydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB
13	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
14	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Y Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR
15	Cyngor Dinas Casnewydd	Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
16	Cyngor Caerdydd	Gwasanaethau Masnachol Rheoleiddiol, Cyngor Caerdydd, Ystafell 118, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW
17	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Tŷ Pontllanfraith, Heol Coed-duon, Pontllanfraith, Coed-duon, NP12 2YW
18	Cyngor Ynys Môn	Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW
19	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Adran Iechyd a Gwarchod y Cyhoedd, Tŷ Elái, Williamstown, CF40 1NY
20	Dinas a Sir Abertawe	Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN
Cyrff Proffesiynol		
21	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd	Cwrt Glanllyn, Parc Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3GA
22	Cynllun Achredu'r Sector Rhentu Preifat	Suite 3, 13 Station Parade, Harrogate, HG1 1UF
23	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol	Market Chambers, 35 Market Place, Coleford, Gloucestershire, GL16 8AA
24	Y Cynllun Gosod Tai Cymeradwy Cenedlaethol (NALS)	
25	RICS	Ail Lawr, 3/4 Plas y Parc, Caerdydd, CF10 3DP
26	Y Sefydliad Tai Siartredig Cymru	4 Tŷ Purbeck, Cilgant Lambourne, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GL
27	Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid	2nd Floor, 200 Union Street, London SE1 0LX
28	UKALA	2nd Floor, 200 Union Street, London SE1 0LX
29	Cymdeithas Landlordiaid	1 Roebuck lane, Sale, Manchester, M33 7SY

	Preswyl	
30	Cymdeithas yr Asiantau Gosod Preswyl	Arbon House, 6 Tournament Court, Edgehill Drive, Warwick, CV34 6LG
Sefydliadau'r Trydydd Sector		
31	Cyngor Ar Bopeth Cymru	
32	Shelter Cymru	Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS
33	Y Gymdeithas Tenantiaid	Siambrau Milbourne, Stryd Glebeland, Merthyr Tudful, CF47 8AT
34	RSCPA Cymru	6 Cae Gwyrdd, Parc Busnes Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB
35	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	East Lodge, Gerddi Dyffryn, Sain Nicolas, Bro Morgannwg, CF5 6SU
36	Grŵp Tai Cydweithredol Cymru	Y Borth, 13 Ffordd Beddau, Caerffili, CF83 2AX
37	UCM Cymru	2il Lawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Cymdeithasau Masnach		
38	Electrical Safety First	Unit 331, Metal Box Factory, 30 Great Guildford Street, London, SE1 0HS
39	Smart Energy GB	Tŷ Regus, Bae Caerdydd, CF10 4RU
40	Ffederasiwn Busnesau Bach	1 Tŷ Cleeve, Cilgan Lambourne, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GP
Cyrff Cyhoeddus		
41	Ombwdsmon Eiddo	Milford House, 43-55 Milford Street, Salisbury, Wiltshire, SP1 2BP
42	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd, CF10 4LG
Landlordiaid		
43	Ivan Lucas	Orde House, Llandywynnog, Rhosan ar Wy, HR9 6DQ
Unigolion Preifat		
44	Wynne Jones	Minyrafon, Abercych, Boncath, Sir Benfro, SA37 0EX
45	Dienw	
46	Dienw	
47	Dienw	